


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16



3	Edrych i'r dyfodol gan Gadeirydd y Bwrdd, Andrew Green
4	Gair gan y Prif Weithredwr
8	Buddsoddiad y Coleg yn y prifysgolion
9	Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
10	Datblygu gweithlu dwyieithog
12	Y Cynllun Staffio Academaidd
14	Ysgoloriaethau'r Coleg
16	Prosiectau'r Coleg
18	Y flwyddyn a fu
20	Atodiadau 1-8



Edrych i'r dyfodol gan Gadeirydd y Bwrdd Andrew Green



Erbyn hyn, mae'r rhagolygon yn gliriach a'r dyfodol yn llawn gobaith. Bydd modd i ni barhau i gynllunio at y dyfodol.

Wedi pum mlynedd o ymsefydlu a gwreiddio, gall y Coleg Cymraeg edrych ymlaen yn hyderus at barhau â'i waith pwysig i sefydlu'r Gymraeg fel cyfrwng naturiol mewn addysg ôl-16 oed.

Am flwyddyn a mwy, bu cryn ansicrwydd yn y sector addysg uwch yng Nghymru yn gyffredinol wrth ddisgwyl argymhellion Comisiwn Syr Ian Diamond ar gyllido myfyrwyr ac addysg uwch yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'r rhagolygon yn gliriach a'r dyfodol yn llawn gobaith. Bydd modd i ni barhau i gynllunio at y dyfodol.

Cynllunio, yn fy marn i, yw un o dri chonglfaen ein llwyddiant hyd yma. Trwy ei strategaeth, ei gynllun academaidd a llawer o gynlluniau amrywiol eraill, mae gan y Coleg ffordd o wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael ac o sicrhau darpariaeth ledled y wlad. Yr ail ffactor hanfodol yw cydweithio effeithiol: cydweithio rhwng y Coleg a'r gwahanol brifysgolion, ynghyd â rhwng yr adrannau

a phynciau unigol, er lles dysgwyr ac ymchwilwyr sydd am weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Y trydydd ffactor yw adnoddau: arian a staff i wireddu'r cynlluniau ac i ysgogi myfyrwyr a darpar fyfyrwyr. Dyma'r model sydd wedi dwyn ffrwyth hyd yn hyn, ac un sydd â'r potensial i weithio'n hwylus y tu allan i addysg uwch.

Mae'n rhaid sylweddoli bod yr adnoddau sydd wedi llifo drwy'r Coleg er 2011 yn fuddsoddiad tymor hir. Er ei fod yn bwysig ein bod yn cyrraedd y targedau a osodir i ni gan y Llywodraeth, dylem gofio y bydd ein penderfyniadau heddiw – er enghraifft i benodi ymchwilwyr ifainc i swyddi darlithio – yn parhau i gael effaith am flynyddoedd maith.

Mawr obeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen am waith rhagorol y Coleg yn ystod y flwyddyn a fu, ac yn rhyfeddu at gymaint â gyflawnwyd. Hoffwn ddiolch i'r sawl sy'n haeddu'r clod am y llwyddiant: i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Cyllido; i aelodau Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg a'i bwyllgorau; i'r Prif Weithredwr, Dr Ioan Matthews, a'i gyd-weithwyr dawnus; ac i'r criw mawr o staff a myfyrwyr ymroddedig yn y sefydliadau.



Gair gan y Prif Weithredwr Dr Ioan Matthews

Blwyddyn academiaidd 2015/16 oedd penllanw cyfnod sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth i'r penodiadau olaf gael eu cadarnhau drwy Gynllun Staffio Academiaidd y Coleg. Unwaith eto gwnaed y penodiadau hyn mewn saith o brifysgolion gwahanol ac mewn ystod o bynciau gan gynnwys Peirianneg a Therapi Iaith a Lleferydd. Gwnaethpwyd penodiad hefyd ym maes Astudiaethau Cyfieithu ym Mhrifysgol Aberystwyth yn dilyn sefydlu cynllun cenedlaethol yn y maes dan nawdd y Coleg. Mae'r penodiadau hyn eisoes yn cyfoethogi ac ehangu ymhellach y dewisiadau sydd ar gael i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol. Gwelir manylion llawn y penodiadau yn Atodiad 4.

Mae'r data swyddogol diweddaraf am nifer y myfyrwyr sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blwyddyn academiaidd 2014/15 yn dangos cynnydd pellach. Mae'r cynnydd hwn i'w weld ar ei fwyaf trawiadol yn y meysydd hynny lle y mae'r Coleg wedi targedu buddsoddiad newydd, er mwyn sicrhau bod o leiaf 40 credyd, neu draean o'r cwrs, ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae meysydd megis Astudiaethau Busnes, y Gyfraith, Gwyddorau Chwaraeon, Seicoleg a Nyrsio oll wedi profi cynnydd pwrpasol, a hynny mewn rhai achosion ble nad oedd modd astudio'n sylweddol yn Gymraeg yn y pwnc o gwbl o'r blaen. Gwelwyd y cynnydd hwn ar yr union adeg pan fo ffigyrau a dderbyniwyd gan UCAS (y corff sydd yn gyfrifol am gydlynu ceisiadau prifysgol gan fyfyrwyr ar draws y Deyrnas Gyfunol) yn dangos cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr o ysgolion a cholegau sydd yn darparu addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn dewis astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru. Serch hynny, mae'r Coleg yn hyderus y bydd y prifysgolion yn cyrraedd y targedau a osodwyd o ran niferoedd y myfyrwyr sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.



**Mae cynnal a chynyddu
niferoedd y myfyrwyr sydd
yn astudio drwy gyfrwng
y Gymraeg yn allweddol.**



Mae cynnal a chynyddu niferoedd y myfyrwyr sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol. Ar yr un pryd, blaenoriaeth arall yng nghenhadaeth y Coleg, drwy gyfrwng y Cynllun Academaidd newydd, yw sicrhau bod cynifer â phosibl o bynciau yn cael eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn cefnogaeth a ddarparwyd gan y Coleg dros y pum mlynedd ddiwethaf, y mae'r ystod o bynciau wedi ehangu'n sylweddol ac, yn wir, mae bron pob maes a nodwyd yn y Cynllun gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2012 bellach ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg mewn prifysgol yng Nghymru. Credwn fod y llwyddiant hwn i ehangu'r ddarpariaeth, yn ogystal â chynyddu'r niferoedd, yn gryn gamp yn yr hinsawdd addysgol ac ariannol sydd ohoni.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, soniwyd am y pryderon ynghylch lefelau cyllido'r Coleg yn y dyfodol a'r perygl o golli llawer o'r momentwm a adeiladwyd ers 2011/12 oni bai y ceir parhad mewn cyllido er mwyn caniatáu i'r ddarpariaeth wreiddio a datblygu. Yn yr un modd, nodwyd pa mor bwysig oedd sicrhau bod cynifer â phosibl o'r staff academaidd a benodwyd ers 2011 yn cael eu penodi i swyddi darlithio parhaol gan y prifysgolion wedi i gefnogaeth ariannol y Coleg i'w swyddi ddod i ben wedi cyfnod o bum mlynedd.

Erbyn hyn mae'r argoelion yn fwy cadarnhaol. Ym mis Medi 2016, cyhoeddwyd adroddiad terfynol Adolygiad Diamond ar gyllido myfyrwyr ac addysg uwch yng Nghymru. Mae'r argymhellion yn cynnwys bod y Coleg yn parhau i weithredu fel y corff arweiniol o ran cynllunio a symbylu addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg ac y dylai'r gyllideb ar gyfer hynny fod yn ddim llai na £5.8m y flwyddyn. Ym mis Tachwedd 2016, cafwyd cadarnhad y bydd cyllideb y Coleg ar gyfer 2017/18 fwy neu lai'n cyfateb i'r swm hwn ac y mae hynny'n caniatáu i'r Coleg gynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf. Cyflawnwyd llawer o waith o ran cyflwyno'r achos dros gynnal a datblygu gwaith y Coleg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy eang,

ac y mae'n galonogol bod y negeseuon a gyflwynwyd yn gyson dros y deunaw mis diwethaf wedi cael derbyniad positif gan wleidyddion ar draws y pleidiau a chan swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni, braf oedd croesawu'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, a'r Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies, i ddigwyddiadau a drefnwyd gan y Coleg. Yn ystod yr wythnos, cyhoeddwyd y bydd Grŵp Tasg a Gorffen yn ystyried rhai materion mewn perthynas â dyfodol y Coleg ac yr ydym yn edrych ymlaen at gyfrannu at waith y grŵp hwnnw.


Er gwaethaf yr ansicrwydd sydd wedi wynebu'r Coleg yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd penderfyniad bwriadus i barhau â'r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol, a hynny er mwyn cyfleu hyder y bydd yr heriau tymor byr yn cael eu goresgyn. Yn benodol, aethpwyd ati i baratoi Cynllun Academaidd newydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf, a hynny er mwyn gosod sail ar gyfer adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd ers 2011. Mae'r Cynllun newydd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr

ym mis Tachwedd 2016, yn gosod pwyslais penodol ar gyfoethogi'r hyn a gynigir i'r myfyriwr ynghyd â sicrhau bod y profiad o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o'r radd flaenaf. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd hyn yn arwain yn ymarferol at ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd fesul pwnc a disgyblaeth er mwyn gwella'r ddarpariaeth a gynigir dan nawdd y Coleg. Mae trefn gyllido newydd ar fin cael ei chyflwyno lle y darperir grantiau pynciol gan y Coleg er mwyn cefnogi'r sefydliadau i ddatblygu a dyfnhau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r berthynas rhwng y Coleg a'r prifysgolion unigol drwy'r canghennau wrth i'r cyfrifoldeb am gynnal swyddi a noddwyd gan y Coleg symud i'r prifysgolion wedi i'r cyfnod cyllido o bum mlynedd drwy'r Coleg ddod i ben. Mae'r ffaith bod cynifer o'r swyddi cyntaf bellach wedi eu mabwysiadu gan y prifysgolion i'w groesawu'n fawr.

Wrth atgyfnerthu'r gweithgareddau yn y sector addysg uwch, mae'r Coleg wedi cydnabod dros y flwyddyn ddiwethaf bod cydweithio gyda sectorau eraill yn allweddol, ac y mae hyn yn dod hyd yn oed yn fwy perthnasol yn dilyn lansio strategaeth iaith newydd Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y sector addysg yn allweddol os gwireddir yr amcanion uchelgeisiol a amlinellwyd, ac er enghraifft, bydd angen trawsnewid y sefyllfa bresennol yn y sector ôl-16, yn enwedig mewn perthynas â darparu addysg alwedigaethol a phrentisiaethau i raddau llawer mwy helaeth drwy

gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, bydd cryfhau dilyniant ar draws sectorau, o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwch a thu hwnt, yn dod yn fwyfwy pwysig, ac er mwyn gwneud hynny bydd yn allweddol sicrhau gweithlu digonol i addysgu ar bob lefel drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Coleg yn cydlynu datblygiad tystysgrif cymhwysedd iaith ar gyfer athrawon, a fydd yn ddull ffurfiol o gofnodi a chydabod eu sgiliau iaith mewn cyd-destun addysgol.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Coleg yn 2016 yng Nghaerdydd, pan urddwyd tri chymrawd er anrhydedd. Bu Ned Thomas yn ffigwr blaenllaw ym mywyd deallusol Cymru ers degawdau ac, yn ddiweddar, bu'n cyfrannu at brosiectau a noddwyd gan y Coleg. Roedd y darlledwr a'r newyddiadurwr Geraint Talfan Davies yn ffigwr allweddol yn hanes sefydlu'r Coleg, a chafwyd araith gofiadwy ganddo yng nghyfarfod blynyddol y Lllys. Mae Rhian Huws Williams newydd ymddeol fel Prif Weithredwraig Cyngor Gofal Cymru, ac mae'r cynnydd a sicrhawyd yn y maes hwnnw yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn benodol mewn perthynas â chynllunio gweithlu a chydabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth dwyieithog diofyn, yn dyst i'w harweiniad a'i gweledigaeth. Wrth gydnabod ei chyfraniad, mae'r Coleg hefyd yn ymrwymo i gefnogi meysydd eraill i symud i'r un cyfeiriad. Mae'n arbennig o berthnasol eleni i gydnabod y gefnogaeth i waith cenedlaethol y Coleg o fewn y canghennau a'r prifysgolion unigol. Wrth i'r Coleg ddod i oed, mewn



Wrth atgyfnerthu'r gweithgareddau yn y sector addysg uwch, mae'r Coleg wedi cydnabod dros y flwyddyn ddiwethaf bod cydweithio gyda sectorau eraill yn allweddol.

un ystyr, mae'n amserol i adolygu rôl y canghennau er mwyn eu gweld yn datblygu ymhellach fel rhan annatod o weithgaredd academiaidd y Coleg. Mae datblygiad y cysyniad o'r darlithydd cysylltiol yn elfen bwysig yn hyn, gan greu trefn lle y bydd pawb sydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n medru gwneud hynny, yn cael eu cydnabod yn ffurfiol gan y Coleg yn ogystal â'u sefydliad cartref. Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd camau i ehangu rhwydwaith canghennau'r Coleg drwy sefydlu cangen ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Ym mis Mawrth 2017, daw tymor Andrew Green fel Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i ben. Mae'r Coleg yn ddyledus iawn iddo am ei arweiniad a'i gyfraniad uniongyrchol i'r trafodaethau ynghylch dyfodol y Coleg. Hoffwn ddatgan fy nioch iddo am ei gefnogaeth gyson. Hefyd, penodwyd

Deon y Coleg, Dr Hefin Jones, am dymor pellach o bedair blynedd yn dilyn cael ei enwebu yn ddiwrthwynebiad gan nifer fawr o staff academiaidd y prifysgolion. Mae'r rôl hon wedi ei datblygu a'i mowldio gan Hefin, ac mae ei waith diflino yn ymweld yn gyson â'r canghennau, cynnal cyswllt â darlithwyr a noddir gan y Coleg ynghyd â hyrwyddo gwaith y Coleg yn ehangach yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch yn arbennig eleni i staff canolog y Coleg, sydd wedi wynebu'r cyfnod o ansicrwydd mewn modd cadarnhaol a phroffesiynol. Mae eu hymrwymiad i'r Coleg a'i waith yn gadarn, ac mae'n bleser cydnabod eu cyfraniad a'u cefnogaeth.



Buddsoddiad y Coleg yn y prifysgolion

Mae dros hanner cyllideb y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn mynd tuag at ariannu'r Cynllun Staffio Academaidd sy'n noddi 115 o swyddi darlithwyr mewn prifysgolion ar hyd a lled Cymru mewn amrywiol feysydd, o'r Diwydiannau Creadigol, Hanes a'r Gyfraith i Feddygaeth, Daeryddiaeth, Busnes, Mathemateg a Thirfesureg.

Mae'r arian hefyd yn ariannu gweithgareddau cysylltiedig fel yr ysgoloriaethau ôl-raddedig a swyddi academaidd-gysylltiedig.

Mae swm sylweddol o'r cyllid hefyd yn mynd tuag at grantiau unigol i'r sefydliadau ar gyfer ariannu'r canlynol:


- Datblygu Adnoddau
- E-Ddysgu
- Cefnogaeth ieithyddol i fyfyrwyr – y Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg a'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith Gymraeg i Athrawon
- Cefnogi modiwlau a gweithgareddau cydweithredol
- Prosiectau Strategol – Cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, ariannu 3 swyddog pwnc cenedlaethol
- Marchnata a hyrwyddo – ymweliadau ysgolion a cholegau addysg bellach, cynllun llysgenhadon, prosiect dilyniant

Buddsoddiad y Coleg yn y Prifysgolion



£24 Miliwn

Dros £24 Miliwn wedi ei fuddsoddi yn y prifysgolion ers 2011



1. Abertawe

£3,033,000

2. Aberystwyth

£4,766,000

3. Bangor

£6,867,000

4. Caerdydd

£2,694,000

5. Drindod Dewi Sant

£2,807,000

6. De Cymru


£1,968,000

7. Met Caerdydd


£1,836,000

8. Arall

£427,000



Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg



Astudiaeth Achos:

Un maes sydd wedi manteisio'n fawr o'r buddsoddiad sylweddol a ddaeth drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw Chwaraeon.

Meddai Dr Hywel Iorwerth, darlithydd Cymdeithaseg ac Athroniaeth mewn Chwaraeon o Brifysgol Metropolitan Caerdydd:

Ym mlwyddyn academaidd 2010/11, roedd 53 o fyfyrwyr yn astudio elfen o'u cwrs gradd Chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg.

“Mae bellach saith aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn yr adran, yn ogystal â dwy fyfyrwraig ymchwil, a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bellach, mae'n bosibl astudio rhywfaint o bob cwrs a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddiweddar dilyswyd gradd newydd ddwyieithog sydd yn cynnig rhwng 80 a 100 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn newyddion calonogol iawn.”


Bellach, wedi i'r Coleg ariannu nifer o staff cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, mae dros 160 o fyfyrwyr yn astudio rhan o'u cwrs Chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, mae bellach saith cynllun gradd israddedig yn cynnig elfen sylweddol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd wedi buddsoddi mewn sawl ysgoloriaeth ymchwil ers 2011.



Datblygu gweithlu dwyieithog

Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llawn i'r gwaith o ddatblygu gweithlu dwyieithog.



Yn ogystal â datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'r Coleg wedi cyflwyno cynlluniau penodol sy'n cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Y nod yw arfogi myfyrwyr â lefelau uchel o sgiliau yn y Gymraeg er mwyn cyfrannu at wella eu cyflogadwyedd. Mae cynyddu hyfedredd ieithyddol, a chynyddu hyder myfyrwyr yn eu sgiliau iaith eu hunain yn rhan allweddol o'r gwaith o sicrhau graddedigion a fydd yn gallu gweithio'n hyderus yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog ym mha bynnag alwedigaeth wedi iddynt adael y brifysgol.

Bu'r Coleg yn cynnig Tystysgrif Sgiliau Iaith i fyfyrwyr ers 2013, gan ddarparu tystiolaeth i gyflogwyr o allu myfyrwyr i ymdrin â'r Gymraeg mewn cyd-destun proffesiynol. Bellach mae 726 wedi derbyn y Dystysgrif. Yn 2016/17, bydd yn cael ei achredu gan CBAC.

Mae dros 300 o gyflogwyr eisoes wedi datgan eu cefnogaeth i'r Dystysgrif, ac yn 2016/17 bydd y Coleg yn cydweithio'n agosach gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau y cydnabyddir y cymhwyster yn ffurfiol yn y gweithle. Bydd y Dystysgrif o gymorth i fyfyrwyr wrth iddynt ymgeisio am swyddi yn y dyfodol, a bydd yn gymorth i gyflogwyr adnabod sgiliau ieithyddol graddedigion wrth benodi i swyddi.

Yn ogystal â darparu Tystysgrif Sgiliau Iaith gyffredinol i fyfyrwyr, yn 2015/16 cyflwynodd y Coleg Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon fel rhan o gynllun peilot ar ran Llywodraeth Cymru. Nod y Dystysgrif newydd hon a ddarperir i ddarparu athrawon ar gyrsiau hyfforddiant athrawon ôl-raddedig yw cydnabod lefelau sgiliau ieithyddol (llafar ac

ysgrifenedig) darpar athrawon, ynghyd â dangos eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus ac i safon uchel. Gyda galw cynyddol am gynnydd yn nifer yr athrawon cymwys sy'n medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Dystysgrif hon yn gam tuag at sicrhau pwyslais ychwanegol ar ddatblygu sgiliau ieithyddol darpar athrawon, ynghyd â chryfhau'r gydnabyddiaeth a roddir i athrawon sy'n medru'r Gymraeg. Yn 2016/17, bydd y Coleg yn datblygu'r cynllun hwn ymhellach.

Yn ogystal â'r gwaith o ddatblygu sgiliau iaith gweithlu'r dyfodol, mae'r Coleg wedi datblygu cynllun profiad gwaith llwyddiannus sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr gwblhau cyfnod o brofiad gwaith cyfrwng Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol. Mae'r Coleg wedi datblygu rhwydwaith o gyflogwyr sy'n barod i leoli myfyrwyr ar brofiad gwaith, ac mae 55 o fyfyrwyr bellach yn cwblhau cyfnod o brofiad gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn flynyddol.

Roedd y lleoliadau yn 2015/16 yn cynnwys:

Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog
Cwmni cyfreithiol Darwin Gray
Adran Gyfreithiol
Llywodraeth Cymru
Pontio
Swyddle
Techniquet
Y Blaid Lafur yn Llanelli
Cyfrifwyr Dunn and
Ellis ym Mhorthmadog
Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
Tŷ Cymru, Brwsel
Gwion Lewis y Bargyfreithwyr
Tîm Gwaith Cymdeithasol
Cyngor Conwy

Cynorthwyo myfyrwyr i baratoi at fyd gwaith:

Datblygu myfyrwyr sy'n hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig

726

o fyfyrwyr wedi pasio'r Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

300+

o gyflogwyr yn cydnabod y Dystysgrif Sgiliau Iaith

130

o gwmnïau a sefydliadau wedi derbyn myfyrwyr i wneud profiad gwaith cyfrwng Gymraeg
o gynghorau lleol a chwmnïau preifat i sefydliadau fel yr Urdd a Llywodraeth Cymru

150

myfyriwr y flwyddyn yn cwblhau cyfnod o brofiad gwaith cyfrwng Cymraeg

Y Cynllun Staffio Academaidd

Cyflwyno meysydd newydd yn 2015/2016

Mae'r Coleg wedi penodi nifer o ddarlithwyr mewn meysydd newydd yn ystod y flwyddyn. Am y tro cyntaf erioed, gwelwyd buddsoddi ym meysydd Peirianeg, Tirfisureg ac Astudiaethau Tir ac Eiddo, ynghyd â Therapi Iaith a Lleferydd.

Hon oedd pumed flwyddyn y Cynllun Staffio Academaidd a'r flwyddyn olaf o ddyfarniadau i ddeillio o'r trefniadau cyllidol a roddwyd ar waith ar adeg sefydlu'r Coleg. Ers 2011, mae'r Coleg Cymraeg wedi noddi 115 o ddarlithwyr newydd i addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru a hynny mewn 36 o wahanol feysydd.



Mae'r Cynllun Staffio Academaidd yn rhan annatod o brosesau cynllunio academaidd y Coleg. Prif amcan y Cynllun yw meithrin darlithwyr o'r radd flaenaf sy'n adnabyddus am flaengarwch a rhagoriaeth ym maes addysgu ac ymchwil. Mae'r cynllun yn galluogi sefydliadau sy'n darparu addysg uwch i gyfrannu at ddatblygu, cynnal a chyflawni cynlluniau academaidd cenedlaethol y Coleg mewn modd strategol a chynaliadwy.


Penodwyd Dr Eifion Jewell, sy'n arbenigwr gwyddonol, peirianyddol a busnes o fewn y diwydiant argraffu a chaenu, i swydd ddarlithio ym maes Peirianeg ym Mhrifysgol Abertawe. Treuliodd Eifion ei gyfnod cychwynnol yn y swydd yn hyrwyddo'r maes fel pwnc y gellir ei astudio'n llwyddiannus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Penodwyd Owain Llywelyn i swydd ddarlithio ym maes Tirfisureg ac Astudiaethau Tir ac Eiddo ym Mhrifysgol De Cymru. Treuliodd Owain dros 30 mlynedd yn y sector preifat fel cyfarwyddwr nifer o gwmnïau cyhoeddus ac mae'n parhau i fod yn gynrychiolydd a llefarydd ar fwrdd rheoli rhyngwladol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

Wedi cyfnod fel un o ddeiliaid Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg, penodwyd Rhonwen Lewis yn ddarlithydd Therapi Iaith a Lleferydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Dwyieithrwydd yw maes arbenigol Rhonwen, gyda sylw penodol ar anawsterau lleferydd datblygiadol sy'n effeithio ar blant.



Un o lwyddiannau'r Cynllun Staffio Academaidd yw'r cynnydd a wnaed o fewn y maes Gwaith Cymdeithasol.



Darlithwyr Cysylltiol y Coleg

Datblygiad cyffrous arall yn ystod 2015/16 oedd sefydlu 'Darlithwyr Cysylltiol' y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r categori hwn o ddarlithydd wedi'i greu'n benodol ar gyfer cyn-ddeiliaid swyddi'r Cynllun Staffio. Fodd bynnag, bwriad y Coleg yw ymestyn y cynllun hwn er mwyn caniatáu i unrhyw academydd sydd yn aelod o'r Coleg ac yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei adnabod fel darlithydd cysylltiol.

Am ragor o wybodaeth am nodau ac amcanion y cynllun ynghyd â'r darlithwyr a gyllidwyd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, ewch i:

www.colegcymraeg.ac.uk/cynllunstaffio

Gwaith Cymdeithasol

Un o lwyddiannau'r Cynllun Staffio Academaidd yw'r cynnydd a wnaed o fewn y maes Gwaith Cymdeithasol.

Yn dilyn buddsoddiad gan y Coleg, ceir cyfleoedd i astudio cyrsiau israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes allweddol hwn ym Mhrifysgol Abertawe a Grwp Llandrillo Menai yn ogystal â chyfleoedd i ddilyn llwybr astudio'n hyblyg drwy'r Brifysgol Agored.

Ym Mhrifysgol Bangor, gellir astudio cwrs ôl-raddedig Gwaith Cymdeithasol yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, lle y cymhwysa nifer o fyfyrwyr penodedig o fyfyrwyr yn flynyddol i ymarfer drwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriad y rhaglen MA Gwaith Cymdeithasol, a gydylnir gan Gwenan Prysor (un o ddarlithwyr Cynllun Staffio Academaidd y Coleg), yw paratoi myfyrwyr yn benodol at allu ymgymryd â swyddi gyda'r gweithlu gwaith cymdeithasol cymwysedig proffesiynol.

Datblygwyd y radd mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Mae'r awdurdodau lleol – sy'n bartneriaid ffurfiol – yn ymwneud â recriwtio, dewis myfyrwyr, cyfrannu at addysgu ac asesu myfyrwyr. Mae'r prif bartneriaid hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu ymarfer, gan sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth gref o ymarfer gwaith cymdeithasol yng ngogledd Cymru, ochr yn ochr â'u datblygiad academaidd. Mae'r cynllun yn darparu rhaglen sy'n bodloni gofynion 'Y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru', Cyngor Gofal Cymru (2012).

Yn genedlaethol, ystyrir y radd hon yn enghraifft ddelfrydol o sut i fynd i'r afael â meithrin gweithwyr cymwysedig mewn ymateb i'r galw yn y sector. Mae cysylltiad bwriadol rhwng y nifer o lefydd sydd ar gael ar y cwrs a'r galw o fewn y gweithlu ei hun yn lleol. Mae'r radd wedi mynd o nerth i nerth, ac ers ei sefydlu cynyddodd nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar y radd o 12 yn 2012 i 22 yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol.

Ysgoloriaethau'r Coleg



Wrth ystyried pa mor gystadleuol yw swyddi heddiw, meddyliais y byddai'r ffaith fod gen i sgiliau yn y Gymraeg o fudd i mi wrth edrych am swydd yn y dyfodol.

Mae'r Coleg yn cynnig dau fath o ysgoloriaeth yn flynyddol, sef:

Prif Ysgoloriaeth
£3,000 dros dair blynedd am astudio o leiaf 66% o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

Ysgoloriaeth Cymhelliant
£1,500 dros dair blynedd am astudio o leiaf 33% o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg – mewn pynciau penodol.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn cynnig ysgoloriaethau ymchwil yn flynyddol.

Mae'r cynllun yn cyfrannu at nod strategol y Coleg o 'hyrwyddo a datblygu ysgolheictod, ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg' trwy ddenu'r graddedigion disgleiriaf a mwyaf brwdfrydig yn flynyddol at y cynllun a meithrin ymchwilwyr o'r safon uchaf yma yng Nghymru.

Ysgoloriaethau'r Coleg:

£1.3m

Buddsoddiad o £1.3m yng nghynllun ysgoloriaethau'r Coleg ers 2011

800

Dros 800 o fyfyrwr wedi elwa o dderbyn un o ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**£1,500
a £3,000**

Ysgoloriaethau gwerth £3,000 a £1,500 ar gael i fyfyrwr israddedig astudio cwrs yn gyfangwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol.



Elen Davies

Elen yn elwa o brif ysgoloriaeth

Mae Elen Davies, sy'n dod yn wreiddiol o Bencader, Sir Gaerfyrddin, yn un o lysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn astudio Cymraeg a Newyddiaduraeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Bu Elen yn llwyddiannus yn ei chais i dderbyn un o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o £3,000 dros 3 blynedd.

Meddai: "Clywais fod yna alw am newyddiadurwyr Cymraeg ac wrth ystyried pa mor gystadleuol yw swyddi heddiw, meddyliais y byddai'r ffaith fod gen i sgiliau yn y Gymraeg o fudd i mi wrth edrych am swydd yn y dyfodol.

Mae derbyn prif ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg yn gymaint o help yn enwedig i brynu llyfrau a deunydd dysgu, ac wrth gwrs yn help ar gyfer mwynhau bywyd cymdeithasol y brifysgol. Mae'r ffurflen gais ond yn cymryd ychydig funudau i'w llenwi, ond gall yr ychydig funudau hynny wneud newid mawr i'ch bywyd prifysgol chi. Mae'r arian yn gymaint o help ymhob ffordd, a'r cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yw astudio drwy'r Gymraeg. Cael arian am astudio yn eich iaith naturiol, pa mor grêt yw hynny?"



Rebecca Lynne Williams

Cyflogadwyedd yn bwysig i Rebecca

Myfyrwraig Rheolaeth Busnes ym Mhrifysgol De Cymru yw Rebecca Lynne Williams, sy'n dod yn wreiddiol o Donypanyd, y Rhondda.

Derbyniodd Rebecca un o Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chyn iddi ddechrau yn y brifysgol nid oedd yn sylweddoli'r cynifer o gyfleoedd a fyddai'n cael eu cyflwyno iddi wrth astudio'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Meddai: "Mae cymaint o bethau da yn dod o astudio yn y Gymraeg! Y bobl rydych yn cwrdd â nhw, y cyfleoedd a'r darlithoedd, i enwi rhai yn unig. Mae'r darlithoedd Cymraeg yn llai mewn maint, ac mae hynny'n well gen i o gymharu â'r darlithoedd o 30 neu fwy o bobl. Mae'r darlithwyr mor hyfryd a chefnogol.

Cyn i mi ddechrau'r brifysgol, doeddwn i ddim yn gwybod am yr holl gyfleoedd a oedd yn gallu codi o astudio gradd drwy gyfrwng y Gymraeg; teithiau, ysgoloriaethau a'r cyfle i fod yn llysgennad.

Mae cymaint o gefnogaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddwn i'n bryderus cyn dechrau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ond pan ddechreuais y darlithoedd roeddwn i yn siŵr fy mod i wedi gwneud y dewis cywir. Mae'r darlithwyr yn gefnogol iawn gyda myfyrwyr sydd yn ansicr gyda'r iaith ac maen nhw'n fwy na hapus i'ch helpu i ddatblygu eich hyder. Mae modd cyflwyno eich gwaith yn ddwyieithog sydd yn gwneud i nifer o fyfyrwyr deimlo'n well am astudio modiwlau drwy'r Gymraeg. Hefyd, mae'n edrych yn wych ar eich CV ac yn gwella eich cyflogadwyedd, nid dim ond yng Nghymru ond ar draws y byd."



Prosiectau'r Coleg

Mae'r Coleg Cymraeg yn cefnogi nifer sylweddol o brosiectau amrywiol trwy'r Gronfa Datblygiadau Strategol a'r Gronfa Grantiau Bach yn flynyddol.

Nod yr arian hwn yw cefnogi a symbylu datblygiadau strategol sy'n hyrwyddo cynlluniau academaidd y Coleg.

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau sydd wedi eu hariannu yn ddiweddar:

Sylfeini'r Gyfraith Gyhoeddus

Mae'r e-lyfr cynhwysfawr hwn gan Keith Bush CF yn adnodd anhepgor i unrhyw un sy'n astudio Cyfraith Gyhoeddus a Chyfraith Gyfansoddiadol Cymru a'r Deyrnas Gyfunol drwy gyfrwng y Gymraeg. Dros y degawdau diwethaf, crëwyd corff o gyfraith Gymreig a Chymraeg, ond prin fu'r deunydd dysgu a oedd ar gael i fyfyrwyr a oedd yn dymuno astudio'r gyfraith honno drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwrslyfr hwn yn gam tuag at ddatrys y broblem honno. Dyma'r gyfrol gyntaf mewn cyfres o werslyfrau swmpus a fydd yn ymdrin â phynciau craidd cyfraith Cymru a Lloegr. Mae'r prosiect, a arweinir gan yr Athro Thomas Watkin, cadeirydd y Bwrdd Golygyddol, ac a reolir gan Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor, yn dwyn ynghyd pob prifysgol yng Nghymru sy'n cynnig y Gyfraith fel pwnc. Nod ac uchelgais y prosiect yw creu cenedlaeth o gyfreithwyr a bargyfreithwyr a fydd yn medru ymarfer eu sgiliau cyfreithiol gyda'r un hyder a'r un naturioldeb yn y ddwy iaith.

Gellir darllen a lawrlwytho'r e-lyfr yma:

www.colegcymraeg.ac.uk/llyfrau/sylfeinir-gyfraith-gyhoeddus

Esboniadur Beirniadaeth a Theori

Dyma brosiect trawsddisgyblaethol a thraws-sefydliadol dan arweiniad Prifysgol Abertawe, mewn cydweithrediad â Phanel Iaith a Llên y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Hwn yw'r Esboniadur cynhwysfawr cyntaf yn y maes yn y Gymraeg sy'n cynnwys cofnodion ar y prif feirniadaeth a theoriwyr yng Nghymru a thu hwnt, symudiadau llenyddol hen a newydd, ynghyd ag amryw ddyfeisiau llenyddol.

Mae'r adnodd ar-lein amlgyfrannog hwn yn ymateb i'r galw am werslyfrau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn maes a all fod yn astrus i fyfyrwyr. Mae'r Esboniadur yn cefnogi a chyfoethogi profiad y myfyrwyr drwy eu cyflwyno i syniadau cymhleth fel strwythuraeth, ffeminyddiaeth ac ôl-drefedigaethedd, a hynny mewn dull cryno ac eglur.

Mae'r adnodd arloesol hwn wedi ei gyhoeddi ar y Porth, llwyfan e-ddysgu ac adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol:
<https://wici.porth.ac.uk>

Cynhadledd Wyddonol y Coleg Cymraeg

Mae'r Gynhadledd Wyddonol wedi ei hen sefydlu yng nghalendr cynadleddau'r Coleg Cymraeg, a 2016 oedd y bumed flwyddyn yn olynol iddi gael ei chynnal. Mae'r Gynhadledd yn darparu llwyfan i wyddonwyr Cymraeg eu hiaith rannu ffrwyth eu hymchwil a thrafod amrywiol destunau o fewn y Gwyddorau.

Eleni, cafwyd cyfraniadau gan doreth o academyddion o Gymru a thu hwnt, gyda'r testunau cyfoes yn amrywio o ddarganfod gwrthfotigau newydd i ddeunyddiau thermodydanol. Fel arfer, mae'r gynhadledd hefyd yn esgor ar gyfleoedd i gyhoeddi yn Gwerddon, cyfnodolyn academaidd y Coleg.

Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol


Lansiwyd y cwrs uwchraddedig newydd sbon hwn a gefnogir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn digwyddiad ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni (Awst 2016). Bwriad y cwrs yw darparu hyfforddiant arloesol i ddarpar gyfieithwyr ac i'r bobl hynny sydd eisoes yn gyfieithwyr, gan sicrhau cydweithio brwd â'r sector proffesiynol a'r diwydiant cyfieithu.

Penllanw'r holl waith paratoi, y dilysu terfynol, y cydweithio, a'r haf prysur o gynnal sesiynau blasu mewn lleoliadau ym mhob cwr o Gymru, oedd croesawu'r criw cyntaf o fyfyrwyr ym mis Medi 2016. Prifysgol Aberystwyth sydd yn cynnig y mwyafrif o'r ddarpariaeth ond cynigir modiwlau gan Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant yn ogystal. Daw'r deg myfyriwr brwdfrydig cyntaf o amrywiol gefndiroedd, ac maent yn dilyn un o'r tri llwybr posibl: Tystysgrif, Diploma neu'r MA llawn. Mae pob un wrth gwrs yn awyddus iawn i ddilyn gyrfa gyfieithu.

Mae nifer o arbenigwyr blaenllaw'r sector cyfieithu a golygu yng Nghymru eisoes wedi cyfrannu at yr addysgu, gan gynnwys swyddogion o Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cyfieithu Cynulliad Cymru, a sawl cyfieithydd a golygydd proffesiynol llaw-rydd. Law yn llaw â'r gwaith o ddysgu crefft y cyfieithydd, rhoddir cyfle i'r myfyrwyr gael profiad ymarferol amhrisiadwy yn y gweithle wrth gydweithio gyda chwmnïau ac unedau arbennig o fewn y sector cyfieithu i ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer y myfyrwyr. Ymhlith y lleoliadau a ddefnyddir yn 2016/17 y bydd Uned Gyfieithu Cyngor Sir Conwy, cwmni cyfieithu Cymen, Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru a chwmni cyfieithu Nico.

Cafwyd dechrau addawol tu hwnt i'r cynllun uwchraddedig hwn ac edrychir ymlaen at ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach yn 2016/17.

Y flwyddyn a fu



Meddygon y dyfodol ar S4C

Bu dwy fyfyrwrraig Meddygaeth sy'n derbyn cymorth ariannol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sêr un o gyfresi S4C.

Ymddangosodd Elin Crockett o Ben-y-bont a Manon Fflur Thomas o Gaernarfon, sy'n astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, ar raglen Doctoriaid Yfory. Mae'r ddwy yn derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant o £1,500 gan y Coleg am eu bod yn astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Coleg Cymraeg wedi buddsoddi'n sylweddol yn y maes iechyd yn ddiweddar a bellach ceir tîm sylweddol o ddarlithwyr yn y maes iechyd a gofal ar hyd a lled Cymru.

Angen hyd yn oed mwy o fyfyrwyr i astudio pynciau lechyd yn y Gymraeg

Wrth groesawu lansiad fframwaith strategol olynol i 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru, ymrwymodd y Coleg i gydweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod hyd yn oed mwy o fyfyrwyr yn dewis astudio pynciau lechyd drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru.

Elfen ganolog o'r fframwaith newydd yw hyfforddi gweithlu addas i weithio'n ddwyieithog yn y maes iechyd yng Nghymru.

Mae'r Coleg yn ymfalchio yn y camau mawr a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf gyda phenodi darlithwyr newydd ym maes Meddygaeth, Fferylliaeth, Nyrso, Bydwreigiaeth, Gwaith Cymdeithasol, Therapi Iaith a Lleferydd a'r Gwyddorau Iechyd. Bellach mae cannoedd o fyfyrwyr yn hyfforddi bob blwyddyn fel gweithwyr iechyd dwyieithog.

Ond, mae'r Coleg yn sylweddoli bod angen gwneud mwy i ddenu myfyrwyr i'r maes iechyd ac maent yn edrych ymlaen at gydweithio gyda phrifysgolion Cymru a'r Llywodraeth er mwyn ymateb i'r her.



Lansio'r Cynllun Llysgenhadon

Penodwyd 14 o lysgenhadon i gynllun llysgenhadon newydd y Coleg yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus.

Prif ddyletswydd y llysgenhadon yw ymgysylltu â darpar fyfyrwyr a phwysleisio gwerth addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ynghyd â phrofi sut y maent wedi elwa o dderbyn eu haddysg yn rhannol drwy'r iaith.

Lansiwyd blog Llais y Llysgennad hefyd er mwyn rhoi llwyfan i'r llysgenhadon roi darlun o fywyd myfyriwr cyfrwng Cymraeg ar ffurf lluniau, fideos a llawer mwy.

Un o'r llysgenhadon a benodwyd ym Mhrifysgol Bangor oedd Erin Jones o'r Bontnewydd, cyn-ddisgybl yn Ysgol Syr Hugh Owen sy'n astudio Nyrsio Oedolion. Meddai: "Mae bod yn llysgennad yn gyfle gwych i bwysleisio gwerth addysg uwch cyfrwng Cymraeg a chynorthwyo disgyblion i wneud y dewis cywir."

Partneriaeth gyda'r Brifysgol Agored

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sefydlu partneriaeth newydd gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru er mwyn cefnogi a gwella cyfleoedd dysgu rhan-amser a dysgu o bell drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ddau sefydliad eisoes wedi cydweithio ar nifer o gynlluniau dros y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys y ddarlithyddiaeth mewn Gwaith

Cymdeithasol yn y Brifysgol Agored a gyllidir gan y Coleg, ynghyd â'r trafodaethau parhaus sy'n digwydd er mwyn tynnu ar arbenigedd y Brifysgol Agored wrth i'r Coleg ddatblygu adnoddau pellach.

Ailddatblygu Llyfrgell e-ddysgu'r Coleg

Uwchraddiwyd Llyfrgell ar-lein y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn galluogi myfywrwyr a darlithwyr i fanteisio ar y dechnoleg e-ddysgu ddiweddaraf. Mae'r Llyfrgell yn gartref i gannoedd o adnoddau addysg uwch cyfrwng Cymraeg ar ystod eang o bynciau. Mae'r gwaith uwchraddio diweddar yn golygu y bydd modd i ddefnyddwyr y Llyfrgell fanteisio ar rai o'r datblygiadau diweddaraf mewn technoleg e-ddysgu, megis fideos a chwisiau rhyngweithiol a thechnoleg cipio darlith. Gall darlithwyr hefyd olygu fideos a recordio teledu byw.

Mae'r Llyfrgell yn cynnwys adnoddau megis darlithoedd, e-lyfrau, rhaglenni teledu o archif S4C, erthyglau gwyddonol a chynngor astudio.

Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Am y tro cyntaf erioed, mae'r Coleg wedi datblygu partneriaeth gyda'r Eisteddfod Genedlaethol i drefnu'r ddarpariaeth yn y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg ar faes y brifwyl dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr astudio pynciau STEM ym mhrifysgolion Cymru wedi datblygu'n sylweddol iawn ers dyfodiad y Coleg. Mae trefnu'r Pafiliwn Gwyddoniaeth yn gyfle i gydweithio, nid

yn unig gyda'r Eisteddfod Genedlaethol, ond hefyd gyda phrifysgolion Cymru a chwmnïau a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud gwyddoniaeth a thechnoleg yn hygyrch i bawb.

Cynyddu'r dilyniant i addysg uwch cyfrwng Cymraeg

Ers dwy flynedd bu'r Coleg yn cynnal prosiect peilot mewn tair ardal wahanol o Gymru. Nod y gwaith oedd codi ymwybyddiaeth disgyblion blwyddyn 9, 10 ac 11, ynghyd â'u hathrawon a'u rhieni, o'r cyfleoedd a'r budd sydd ar gael iddynt o barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

